RHAGFYR 2023

# ER GWYBODAETH

Bwletin Chwarterol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru



## SEREMONI WOBRWYO YN DATHLU CYFLAWNIADAU STAFF

## DAETH STORM BABET AG AMRYW O ASIANTAETHAU AT EU GILYDD I AMDDIFFYN PRESWYLWYR

## DATHLU WYTHNOS RYNGWLADOL YSTAFELLOEDD RHEOLI




# SEREMONI WOBRWYO YN DATHLU CYFLAWNIADAU STAFF

**Mae'r seremoni wobrwyo flynyddol bob amser yn un o uchafbwyntiau calendr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yr hydref hwn cafodd y seremoni ei chynnal yn Venue Cymru, Llandudno.**

Cyflwynodd Arglwydd Raglaw Clwyd, Mr Harry George Fetherstonehaugh OBE, Fedalau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Da a chlasbiau 30 mlynedd i staff gweithredol yn ystod y seremoni.

Hefyd, cafodd tystysgrifau sy'n cydnabod diffoddwyr tân yr ystafell reoli sydd wedi cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol, yn ogystal â Gwobrau Cymunedol i gydnabod aelodau o staff a'r gymuned sydd wedi gweithio'n galed i wella diogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru, eu cyflwyno gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân a'r Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.







Dywedodd Dawn Docx: "Mae derbyn medal neu glasbyn yn achlysur pwysig i bob diffoddwr tân ac mae'r seremoni hon yn dangos faint o ymrwymiad ac ymroddiad mae pob un o'r rhai sy'n cael eu gwobrwyo wedi'u rhoi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru. Gall pob un sy'n derbyn eu Medalau Ymddygiad Da a Gwasanaeth Hir neu glasbiau gymryd balchder a boddhad yn eu cyflawniadau.

**"Mae fy llongyfarchiadau calonnog yn mynd i bawb a fynychodd, yn ogystal â'r staff a ddewisodd dderbyn eu medalau neu eu cydnabyddiaeth yn breifat. Mae eich gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gennyf fi fel Prif Swyddog Tân, eich cydweithwyr a'r cymunedau yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu."**

Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: "Ar ran Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hoffwn longyfarch pawb sydd wedi derbyn medal, clasbyn neu wobr. Diolch yn fawr i chi i gyd am eich ymroddiad."

# DAETH STORM BABET AG AMRYW O ASIANTAETHAU AT EU GILYDD I AMDDIFFYN PRESWYLWYR




**Daeth tywydd garw i Ogledd Cymru ym mis Hydref gyda Storm Babet, a gwelwyd amryw o asiantaethau yn cydweithio er mwyn diogelu cymunedau.**

Gweithiodd staff yr Ystafell Reoli, criwiau a swyddogion yn ddiflino ar draws y rhanbarth i roi cyngor ag i helpu cymunedau yn ystod llifogydd mawr.

Eglurodd Justin Evans, Rheolwr Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:


“Ar uchafbwynt y digwyddiad roedd gennym rybuddion llifogydd ar draws yr ardal Gwasanaeth gan gynnwys rhai gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Afonydd Alyn, Clwyd, Gele Elwy, Dyfrdwy, Mawddach ac Wnion.

“Roedd anhwylustod arbennig i’r rhwydwaith ffyrdd, yn enwedig yn Sir y Fflint ac roedd ambell i dai preswyl yn cael eu heffeithio gan ddŵr llifogydd.

“Daeth staff ac adnoddau ychwanegol i mewn i’n hystafell reoli er mwyn roi cymorth efo rheoli’r nifer o alwadau – roedd dros 200 o ddigwyddiadau wedi eu gofnodi ar ein system rheoli digwyddiadau gyda swyddogion a pheiriannau yn bresennol mewn 44 digwyddiad, a swyddog yn unig i 56 ddigwyddiad. Roedd nifer o’r galwadau yn digwydd ar yr un pryd ac yn anodd i gael mynediad atynt gan nad oedd modd defnyddio rhai ffyrdd. Aeth ein uned digwyddiadau dŵr at 19 o ddigwyddiad gyda tua 60 o bobl yn cael eu hachub neu adleoli dros y cyfnod.

“Uchafbwynt y galwadau oedd nos Wener ag yna distawodd hyn gyda’r nos – roedd hyn yn alinio efo’r rhagolwg o pryd fyddai mwy o bobl yn symud o gwmpas ac er nifer o geisiadau gennym ni a phartneriaid i beidio gwneud, roedd gyrwyr yn





parhau i ddod i ardaloedd a oedd wedi eu heffeithio gan lifogydd, hyd yn oed wrth i bethau waethygu. Darparwyd ymateb i tua 25 o gerbydau oedd mewn dŵr llifogydd, gan roi cymorth efo achub a symud o'r ardaloedd dan sylw.

"Roedd llawer o'r digwyddiadau hyn yn cynnwys adleoli'r un adnoddau arbenigol dros gyfnod hir o amser - felly roedd yn dipyn o gamp i'r rhai a gymerodd ran.

**"Llwyddodd yr Ystafell Reoli i reoli llif gwybodaeth a phenderfyniadau allweddol gydag ymdeimlad tawel o frys - mae'n eithaf amserol bod eu gwaith yn cael ei ddathlu'r wythnos hon trwy Wythnos yr Ystafell Reoli Ryngwladol.**

"Rhannwyd cyngor rheolaidd a negeseuon sicrwydd drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â swyddogion yn cymryd rhan mewn cyfweliadau darlledu ar gyfer y BBC. Gwnaethom gyfathrebu'n rheolaidd â phartneriaid drwy'r Grŵp Cydlynu Tactegol, gyda negeseuon clir a chydlynol yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu gan bartneriaid dan sylw.

"Wrth gwrs, roedd rhai achlysuron lle roedd pobl yn dymuno y gallem wneud mwy. Elfen allweddol yn ein hymateb oedd yr empathi a ddangoswyd gan ein staff, a sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu defnyddio lle byddent yn gwneud gwahaniaeth go iawn.

"Cafodd ein adeiladau ein hunain eu heffeithio gan y llifogydd, gydag effeithiau dŵr llifogydd yng Ngorsaf Dân Bae Colwyn. Cafodd effaith y llifogydd yn yr Orsaf ei lliniaru gan aelodau staff nad oedd ar ddyletswydd a buom yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i glirio malurion o gyli draenio sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r orsaf.

"Yn ogystal â'r pwysau sy'n deillio o effeithiau'r tywydd, fe wnaethom hefyd ymateb i nifer o ddigwyddiadau eraill.

"Diolch i'n staff a'n holl bartneriaid aml-asiantaeth ar draws Gogledd Cymru a weithiodd gyda ni i ddiogelu ein cymunedau."



# DATHLU WYTHNOS RYNGWLADOL YSTAFELLOEDD RHEOLI

**Cafodd Wythnos Ryngwladol Ystafelloedd Rheoli ei chynnal ym mis Hydref, gan roi cyfle gwych i gydnabod y gwaith y mae staff ystafelloedd rheoli yn ei wneud i achub a newid bywydau, ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys eraill ledled y DU, a chydnabod eu cryfder a'u gwytnwch wrth ddarparu gwasanaeth 24/7 sy'n ymateb i alwadau brys.**

Dywedodd Ros Thomas, Pennaeth yr Ystafell Reoli: "Mae'r fenter hon yn dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'r rôl hanfodol sy'n cael ei chwarae gan dimau ystafelloedd rheoli wrth ddelio â sefyllfaoedd trawmatig a gofidus ac wrth gefnogi'r ddarpariaeth ehangach o wasanaethau."

Ewch i'n gwefan www.tangogleddcymru.llyw.cymru am fwy o fanylion ar sut y gallech ddod yn rhan o'n tîm sy'n gweithio fel gweithredwyr rheoli yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn Llanelwy.















# YN ANGOF NI CHÂNT FOD

Cymerodd amrywiol aelodau o staff a Chadetiaid Tân o bob rhan o'r Gwasanaeth ran mewn digwyddiadau Dydd y Cofio ledled y rhanbarth ym mis Tachwedd i roi teyrnged i bobl sydd wedi marw mewn rhyfeloedd.













# RYGBI GOGLEDD CYMRU YN HELPU I LANSIO YMGYRCH NADOLIG I OFALU AM EIN GILYDD




**Ymunodd staff o'r Gwasanaeth â'n partneriaid gwasanaeth brys a Rygbi Gogledd Cymru i lansio ymgyrch diogelwch y Nadolig ym Mharc Eirias ym mis Tachwedd.**

Nod yr apêl yw gofyn i bawb helpu i gadw cymunedau'n ddiogel drwy ddilyn rhai awgrymiadau diogelwch tân sylfaenol a gofalu am ein gilydd y Nadolig hwn.

Cafodd yr ymgyrch ei lansio mewn Diwrnod Golau Glas ym Mharc Eirias ym Mae Colwyn lle cynhaliodd y gwasanaethau brys ystod o weithgareddau er mwyn ymgysylltu â'u cymunedau.

Esboniodd Kevin Jones, Pennaeth Atal, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru: "Gweithio gyda'n gilydd a gofalu am ein gilydd yw'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn ddyddiol gyda'n cydweithwyr yn y gwasanaethau brys - ac mae chwaraewyr Rygbi Gogledd Cymru yn gweithio fel tîm ar y cae rygbi, gan gadw llygad ar eu cyd-chwaraewyr yn ogystal â'r bel.

"Dyna pam roedden ni'n teimlo mai Diwrnod Golau Glas Parc Eirias oedd y lle perffaith i lansio ein hymgyrch diogelwch tân ar gyfer Nadolig 2023".

"Mae'r cyfnod cyn y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn aml yn gyfnod prysur iawn - felly hoffwn ofyn i chi gymryd ychydig o funudau i ystyried diogelwch tân a meddwl sut gallwch chi helpu teulu, ffrindiau neu gymdogion gadw'n ddiogel rhag tân y Nadolig hwn, a sicrhau bod larymau mwg gweithredol wedi'u gosod yn eu cartrefi".

**"Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr a siaradon ni â channoedd o deuluoedd am ddiogelwch y Nadolig hwn a daeth ein masgot, Sbarc, i gwrdd â phawb hefyd."**

Ychwanegodd Alun Pritchard, Rheolwr Cyffredinol Rygbi Gogledd Cymru: "Roedden ni wrth ein boddau i gefnogi lansiad Ymgyrch Diogelwch Nadolig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bydden ni'n annog ein holl gefnogwyr i helpu i ddiogelu ffrindiau, teulu a chymdogion trwy ofalu am ein gilydd y Nadolig hwn."



# 'SBARC' YN YMWELD AG YSGOL PENYCAE




**Cafodd disgyblion Ysgol Penycae, Wrecsam ymweliad arbennig gan y gwasanaeth tân ac achub i lansio cystadleuaeth lliwio diogelwch coelcerthi a thân gwyllt yn ogystal â hyrwyddo'r platfform dysgu dwyieithog rhad ac am ddim newydd, 'StayWiseCymru' ym mis Hydref.**

Mae StayWiseCymru (www.staywisecymru.co.uk) yn dwyn ynghyd adnoddau addysgol gwasanaethau brys a sefydliadau golau glas sydd wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Mae'r wefan yn cynnig cynlluniau gwersi, fideos a thaflenni gweithgareddau rhad ac am ddim i helpu addysgwyr i ddysgu pobl ifanc am gyngor a allai achub bywydau o fewn meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm. Mae hefyd yn cynnig adnoddau i aelwydydd eu defnyddio ac mae athrawon yn gallu gosod gwaith o'r safle fel rhan o gynllun dysgu o bell i rieni a gofalwyr.

Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) sy'n arwain y bartneriaeth y tu ôl i StayWiseCymru. Mae'r partneriaid yn cynnwys y Gymdeithas Achub Bywyd Frenhinol (RLSS UK), y Sefydliad Achubwyr Bywyd Cenedlaethol Brenhinol (RNLI), Gwylwyr y Glannau EF, Cymdeithas y Prif Weithredwyr Ambiwlans, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Addysg, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Network Rail.

Nod y gystadleuaeth lliwio oedd hyrwyddo diogelwch coelcerthi a thân gwyllt, gyda thaflenni gweithgareddau yn cael eu hanfon i ysgolion cynradd ar draws y rhanbarth i helpu i ysgogi sgyrsiau ynghylch cadw'n ddiogel.

Dywedodd Stuart Millington, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol: "Roedd hi'n wych cael mynd gyda Sbarc, ein masgot diogelwch tân, ar ymweliad â'r ysgol. Mae Staywise Cymru yn ddatblygiad cyffrous sy'n darparu adnodd newydd gwych i bawb ei ddefnyddio.

**"Mae'n cynnig deunyddiau addysgol cyson ac effeithiol ar gyfer athrawon, rhieni, gofalwyr a'r gwasanaethau brys er mwyn helpu pobl ifanc i ddysgu am amrywiaeth o bynciau diogelwch.**

"Mae mor bwysig bod yr adnodd yn cael ei brofi, ac ni allwn ddiolch digon i staff Ysgol Penycae am eu holl waith yn ein helpu i sicrhau bod y platfform yn hawdd ei ddefnyddio ac yn effeithiol."

Ychwanegodd Lesley Bassett, Rheolwr Prosiect StayWiseCymru: "Mae StayWiseCymru wedi ymrwymo i achub bywydau drwy addysg. Drwy gael partneriaid i gydweithio, rydym wedi cynhyrchu adnodd dysgu cyson y gall addysgwyr o bob rhan o'r gymuned ei ddefnyddio'n hyderus, boed yn athrawon, yn addysgu gartref, neu'n staff a gwirfoddolwyr y gwasanaethau brys.

Dywedodd Laura McGee, Dirprwy Bennaeth Ysgol Penycae: "Mae gwefan StayWiseCymru yn blatfform gwych, gydag ystod eang o adnoddau ar gael."

# TAFLU GOLEUNI AR DDIOGELWCH YN YSTOD DATHLIADAU TÂN GWYLLT TRAWIADOL




**Bu staff o orsafoedd tân ar draws Gogledd Cymru yn helpu i gynnal arddangosfeydd coelcerth a thân gwyllt yn y rhanbarth ar benwythnos o ddathliadau noson Guto Ffowc ym mis Tachwedd.**

Yn ôl Paul Kay, Pennaeth Diogelwch Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, "Mae nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â thân gwyllt a choelcerthi wedi gostwng yn ddramatig a hoffem ddiolch i'r cyhoedd am wrando ar ein neges i fynychu arddangosfeydd wedi'u trefnu yn hytrach na chynnal eu nosweithiau tân gwyllt eu hunain gartref.

"Mae'n wych gweld cynifer o orsafoedd tân yn cymryd rhan yn eu harddangosfeydd lleol a miloedd o bobl yn gallu mwynhau dathliadau noson tân gwyllt mewn ffordd ddiogel a rhatach."




---

# CYSYLLTU Â CHYMUNED SIR Y FFLINT AR DDIWRNOD POBL HŶN

**Mynychodd staff o dîm diogelwch cymunedol Ardal y Dwyrain ddigwyddiad Pobl Hŷn yng Nghei Connah yn ddiweddar a manteisio ar y cyfle i ledaenu'r neges am ddiogelwch tân i drigolion lleol sy'n agored i niwed.**

Dywedodd Neil Jones, Rheolwr Gwylfa Diogelwch Tân Sir y Fflint a Wrecsam: "Roedd hwn yn ddigwyddiad gwych ac roeddwn i'n gallu cwrdd a siarad â phobl hŷn yn y gymuned i roi gwybod iddyn nhw am yr hyn y gallwn ei gynnig iddyn nhw fel gwasanaeth tân ac achub er mwyn eu helpu i gadw'n ddiogel yn eu cartrefi.

"Rydym am ymgysylltu â chynifer o drigolion hŷn ag y gallwn ac roedd y digwyddiad hwn yn gyfle da i allu gwneud hyn o dan yr unto yng Nghei Connah."






# YMARFER HYFFORDDI CYMRU GYFAN YN PROFI'R YMATEB GWEITHREDOL I LIFOGYDD

**Gyda diffoddwyr tân yn cael eu galw i fynychu mwy a mwy o ddigwyddiadau yn ymwneud â llifogydd, cymerodd staff ran mewn ymarferiad ar gyfer Cymru gyfan yn canolbwyntio ar lifogydd.**

Daeth criwiau o Fangor, Glannau Dyfrdwy a Rhuthun yn ogystal â swyddogion o'r Gwasanaeth i'r digwyddiad yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio uned a chwch achub dŵr Rhuthun i efelychu ymateb cenedlaethol i lifogydd difrifol yn ardal De Cymru.

Mynychodd Mark Jat, Rheolwr Rheoli Digwyddiadau a'r Ysgol Yrru, fel Rheolwr Digwyddiad Dŵr i reoli Tîm Gogledd Cymru, gydag Eilian Roberts, Rheolwr Hyfforddiant Ardal y Gorllewin ac arweinydd hyfforddiant diogelwch dŵr, yn gweithredu fel Cynghorydd Tactegol Llifogydd. Roedden nhw'n cynorthwyo criwiau De Cymru i symud asedau i wahanol leoliadau ymarfer o amgylch ardal Caerdydd.

Esboniodd Eilian: "Roedd yr ymarferiad mewn dwy ran - un i efelychu ymateb cenedlaethol a gynhaliwyd gan Gydnerthedd Cenedlaethol Cymru, a'r llall i gefnogi ein partneriaid yn Ne Cymru i efelychu ymarferiad llifogydd ar raddfa fawr yn yr ardal.

"Roedd yr ymarferion yn amrywio o gerbydau wedi'u boddi mewn dŵr neu bobl yn gaeth mewn tai dan ddŵr i chwilio cyfeintiau enfawr o ddŵr am bobl ar goll.

**"Cafodd yr ymarferion eu cynnal yng ngolau dydd ac yn ystod y nos i efelychu digwyddiad llifogydd dros gyfnod o 48 awr.**

"Cafodd nifer o asedau dŵr o bob rhan o'r DU eu defnyddio fel rhan o'r ymarferiad, gyda gwasanaethau o Lannau Mersi, Llundain a Dyfnaint yn cymryd rhan, yn ogystal â gwasanaethau gwirfoddol fel Achub Mynydd, Surf GB a SERA.

"Roedd hwn yn gyfle dysgu rhagorol, gan weithio â chydweithwyr o bob rhan o'r DU fel rhan o'n rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi diogelwch dŵr."




# GLASFYFYRWYR YN DYSGU AM DDIOGELWCH TÂN

**Dechreuodd tymor y brifysgol gyda gwers werthfawr mewn diogelwch tân i fyfyrwyr Gogledd Cymru pan fynychodd staff ffeiriau'r glas ym Mangor a Glyndŵr Wrecsam.**

Cafodd y myfyrwyr eu profi ar eu gwybodaeth gyda chwis diogelwch tân byr a oedd yn eu cynnwys mewn cystadleuaeth i ennill taleb Amazon gwerth £30.

Enillydd y gystadleuaeth oedd myfyriwr o Brifysgol Bangor a dderbyniodd ei gwobr gan y Gweithiwr Cymorth Diogelwch Cartref, Tracey Williams.

Dywedodd Gemma Brook, Rheolwr Partneriaeth Ardal y Gorllewin: "Roedd ffeiriau'r glasfyfyrwyr yn hynod o brysur a siaradon ni â channoedd o fyfyrwyr am bwysigrwydd diogelwch tân, gan rannu ein cynghorion i'w cadw'n ddiogel.

"Rydym hefyd wedi bod yn rhoi cyngor ar sut i osgoi galwadau diangen yn y neuaddau preswyl - rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r ddwy brifysgol ar y mater hwn ers nifer o flynyddoedd ac wedi gweld cynnydd sylweddol.

**"Mae llawer o'r bobl ifanc yma yn byw oddi cartref ac oddi wrth eu rhieni am y tro cyntaf ac maen nhw o bosib yn fregus iawn.**

"Byddwn yn parhau i weithio gyda staff y prifysgolion drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo diogelwch tân mewn gwahanol ddigwyddiadau ar eu safleoedd."





# DARPARU DIOGELWCH AR Y FFYRDD I DŴR CYMRU



**Yn ddiweddar, rhannodd staff o'r Tîm Atal gyngor diogelwch ar y ffyrdd pwysig gyda gweithwyr Dŵr Cymru.**

Rhoddodd y Rheolwyr Gwylfa Diogelwch Tân Neil Jones a Pam Roberts gyflwyniad diogelwch ar y ffyrdd pwerus am 'Stori Olivia' i 25 o staff maes Dŵr Cymru.

**Dywedodd Pam Roberts: "Cawsom adborth gwych gan y staff, a dywedon nhw fod y cyflwyniad yn effeithiol iawn a'i fod wedi gwneud iddyn nhw i gyd feddwl am ganlyniadau eu gweithredoedd.**

"Mae aelodau'r Tîm Atal yn edrych ar gyfleoedd eraill i ddarparu ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd effeithiol i weithluoedd eraill yng Ngogledd Cymru. Os hoffech i ni ddod i'ch sefydliad cysylltwch â'r adran diogelwch cymunedol ar 01745 535 250 neu e-bostiwch cfs@northwalesfire.llyw.cymru"

# STAFF YN CREU CYSYLLTIADAU GYDA GRŴP DEMENTIA GWYNEDD

**Ymwelodd y Rheolwyr Partneriaethau, Gemma Brook a James Roberts, â grŵp cymorth dementia yng Ngwynedd i helpu i gryfhau cysylltiadau â phartneriaid lleol a rhannu cyngor a gwybodaeth.**

Dywedodd Gemma, sydd wedi'i lleoli yng Ngwynedd a Môn: "Mae Swper-Grŵp Dementia Gwynedd yn cyfarfod bob chwarter ym Mhenrhyndeudraeth, ac yn dwyn ynghyd amrywiaeth o bobl sy'n gweithio o fewn y diwydiant ac yn cefnogi'r rhai sy'n byw gyda Dementia.

**"Yn amrywio o aelodau Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i ofalwyr, a hyd yn oed y rhai sy'n byw gyda Dementia eu hunain, nod y grŵp yw creu arferion gwaith gwell, a**



**rhwydweithiau rhannu gwybodaeth i sicrhau bod y gofal gorau posibl yn cael ei ddarparu yn y sir.**

"Trafodon ni ddiogelwch tân, ac yn benodol gosod Gwarchodwyr Stôf, a pha mor ddefnyddiol maen nhw'n gallu bod i aelodau mwyaf bregus y gymuned."

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Carolau

# Carol Service

Gwasanaethau Brys Gyfun
Combined Emergency Services

**Cadeirlan Bangor / Bangor Cathedral**

## 11.12.23 - 7.30pm

Arwyn Tudur Jones
Seindorf Beaumaris Band
Côr Ieuenctid Môn

Bydd yr holl elw'n mynd i Gymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru
All proceeds will go to the North Wales Mountain Rescue Association